

2012 Rhif 48 (Cy. 11)

PRIFFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd Sanclêr i
Ddoc Penfro (Yr A477) (Gwelliant
Sanclêr – Rhos-Goch a Thynnu
Statws Cefnffordd) 2012**

Gwnaed 5 Ionawr 2012

Yn dod i rym 18 Ionawr 2012

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 10 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980(1), a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn—

1. Daw'r priffyrdd newydd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadau eu hadeiladu ar hyd y llwybrau a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn gefnffyrdd o'r dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym.

2. Dangosir llinellau canol y cefnffyrdd newydd â llinellau du trymion ar y plan a adnewwyd.

3. Bydd y darn o gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â llinellau rhesog llydan ar y plan a adnewwyd yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffordd ddosbarthiadol o'r dyddiad yr hysbysir Cyngor Sir Caerfyrddin gan Lywodraeth Cymru bod y cefnffyrdd newydd yn agored ar gyfer traffig trwodd.

4. Yn y Gorchymyn hwn:

Mesurir pob mesur pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

(1) 1980 p.66

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.

- (i) ystyr “y plan a adnewyd” (“the deposited plan”) yw'r plan sy'n dwyn y rhif HA10/2 WAG6, a farciwyd “Gorchymyn Cefnffordd Sanclêr i Ddoc Penfro (yr A477) (Gwelliant Sanclêr – Rhos-goch a Thynnu Statws Cefnffordd) 2012”, a lofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru;
- (ii) ystyr “y gefnffordd” (“the trunk road”) yw Cefnffordd Sanclêr i Ddoc Penfro (yr A477);
- (iii) ystyr “y cefnffyrdd newydd” (“the new trunk roads”) yw'r cefnffyrdd a grybwyllir yn erthygl 1 o'r Gorchymyn hwn.

5. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Ionawr 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd Sanclêr i Ddoc Penfro (yr A477) (Gwelliant Sanclêr – Rhos-goch a Thynnu Statws Cefnffordd) 2012.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiad

5 Ionawr 2012

G R Morgan

GARETH MORGAN

Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

LLWYBRAU'R CEFNFFYRDD NEWYDD

Mae llwybrau'r cefnffyrdd newydd rhwng Cylchfan Sanclêr a man i'r gorllewin o Ros-goch yn Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:

1. Darn sy'n dechrau wrth bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 768 metr i'r gorllewin o linell ganol ei chyffordd â'r B4314 i Dafarn-sbeit (a farciwyd A ar y plan a adnewwyd) ac yn ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o tua 7369 metr hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol 467 metr i'r dwyrain o linell ganol ei chyffordd â'r C3230 i Dafarn-sbeit (a farciwyd B ar y plan a adnewwyd).

2. Darn sy'n dechrau wrth bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 695 metr i'r dwyrain o linell ganol ei chyffordd â'r C3230 i Dafarn-sbeit (a farciwyd C ar y plan a adnewwyd) ac yn ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o tua 660 metr hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol 312 metr i'r gorllewin o linell ganol ei chyffordd â'r U6611 i Backe (a farciwyd D ar y plan a adnewwyd).

ATODLEN 2

DARN O GEFNFFORDD SY'N PEIDIO Â BOD YN GEFNFFORDD

Y darn o gefnffordd sy'n peidio â bod yn gefnffordd yw'r llwybr yn Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:

1. Darn sy'n dechrau wrth bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 768 metr i'r gorllewin o linell ganol ei chyffordd â'r B4314 i Dafarn-sbeit (a farciwyd 1 ar y plan a adnewwyd) ac yn ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o tua 7750 metr hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol 467 metr i'r dwyrain o linell ganol ei chyffordd â'r C3230 i Dafarn-sbeit (a farciwyd 2 ar y plan a adnewwyd).